# CYNGOR TREF Y BALA

**Swyddfa'r Cygnor, Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE**

**Ffôn:Tel: 07896964120**

**cyngorybala@outlook.com**

**www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk**

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023-24

4/5/23

**Presennol:** Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Sion McGuiness, Tony Parry, Eifion Roberts, Eric Williams, John C Williams
Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd
Cyhoedd: 1
Lis Puw *(Clerc)*

1. Derbyniwyd Adroddiad y Maer 2022-23: Rhys Evans

2. Etholwyd Eifion Roberts fel Maer am y flwyddyn 2023-24

3. Etholwyd Tony Parry yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn 2023-24

4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022 ar ôl newid "Mynegodd un aelod ei bod yn parhau i ddysgu'r iaith" i "Mynegodd sawl aelod eu bod yn parhau i ddysgu'r iaith" yn y baragraff "Yn dilyn y cyfarfod blynyddol"

5. Penodwyd dyddiadau cyfarfod ar gyfer y flwyddyn 2023-24

| | | |
|---|---|---|
| 14/5/23 | 5/10/23 | 1/2/24 |
| 1/6/23 | 2/11/23 | 7/3/24 |
| 6/7/23 | 14/12/23 | 4/4/24 |
| 7/9/23 | 4/1/24 | 2/5/24 |

*6.* Ail ystyriwyd yr is-bwyllgorau a phenodwyd Cynghorwyr i weithredu arnynt:

| Is-bwyllgor | Aelodau is-bwyllgorau |
|---|---|
| Is- Bwyllgor Cyllid (yn cynnwys y Maer) | 1 Rhys Evans<br>2 Eifion Roberts<br>3 Dilys Evans<br>4. Fiona Hopkins |
| Is bwyllgor Goleuadau Nadolig | 1 John C Williams<br>2 Jacqueline Allen<br>3 Rhys Evans<br>4 Moira Mai |
| Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau, gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref | 1 Eluned Jones<br>2 Tony Parry<br>3. Moira Mai<br>4. Eric Williams |
| Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar | 1 Eluned Jones<br>2 Sion McGuinness<br>3 Clare Mackintosh |
| Is bwyllgor digwyddiadau a gwella adnoddau i drigolion Y Bala – rhaglen 4 mlynedd | 1 Rhys Evans<br>2 John C Williams<br>3 Fiona Hopkins<br>4 Eric Williams (Dilwyn Morgan) Y Maer Dilys Tony |
| Is-bwyllgor bio-amrywiaeth | 1 Jacqi Allen<br>2 Rhys Evans<br>3 Fiona Hopkins |

7. Enwebwyd cynrychiolwyr o'r Cyngor i gyrff amrywiol:

| Cynrychiolwyr o'r Cyngor ar fudiadau neu sefydliadau | |
|---|---|
| Un Llais Cymru | Y Maer |
| Cymdeithas Chwaraeon Penllyn | 1 John C Williams<br>2 Jaqui Allen |
| Grwp Siopau | 1 Sion McGuiness<br>2 Fiona Hopkins |
| Partneriaeth Penllyn | Pwyllgor y Bartneriaeth:<br>1. Rhys Evans<br>2. Dilys Evans<br>3. J C Williams |
| Heddlu ac asiantaethau gwarchod y cyhoedd | Clare Mackintosh |

***8.*** Adolygwyd a chadarnhawyd Polisïau'r Cyngor (*gweler y wefan)*. ***NODER: Disgwylir Rheolau wedi eu hadolygu gan Un Llais Cymru ac fe fyddant yn cael eu dwyn i sylw'r Cyngor pan fyddant yn dod i law.***

a. Cod Ymddygiad y Cyngor
b. Rheolau Sefydlog
c. Rheoliadau Ariannol
d. Polisi gwarchod data
e. Polisi Cyhoeddi a Rhyddid Gwybodaeth
f. Polisi Pryderon a Chwynion

9. Adolygwyd rhestr o eiddo ac asedau'r Cyngor (gweler y wefan)

10. Cadarnhawyd talu lwfansau Cynghorwyr am y flwyddyn yn ôl y rheolau:

   i. Telir Lwfans Unigol o £156 i bob Cynghorydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol
   ii. Tal presenoldeb: ni fydd y Cyngor yn talu am bresenoldeb yn y cyfarfodydd misol.
   iii. Telir costau o fewn y rheolau os ar fusnes y Cyngor
   iv. Telir costau teithio ar fusnes y Cyngor @ 45c y filltir
   v. Telir costau gwarchod o fewn y rheolau i fynychu cyfarfod /ar fusnes y Cyngor

- *Nodwyd fod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n flynyddol pob taliad a wneir i Gynghorwyr unigol.*
- *Nodwyd yr angen i'r sawl sy'n gwrthod y Lwfans Cynghorwyr ddatgan hynny yn ysgrifenedig wrth y Clerc.*